

PAROLWG CARTREFI 2017 - ADRODDIAD DADANSODDOL CYCHWYNNOL

TABL CYNNWYS

TABL CYNNWYS	1
CANFYDDIADAU ALLWEDDOL	3
CEFNDIR.....	Error! Bookmark not defined.
METHODOLEG	Error! Bookmark not defined.
Arolwg Newslne.....	4
Arowlg y We	4
Dosbarthiad wedi ei dargedu.....	Error! Bookmark not defined.
DADANSODDIAD	Error! Bookmark not defined.
PROFFIL YMATEBWYR.....	5
EICH CYNGOR	6
Graff 1: Canran o ymatebwyr a oedd yn fodlon neu'n anfodlon gyda'r gwasanaethau cyffredinol a ddarperir gan y Cyngor (2011 - 2017).....	6
Graff 2: Bodlonrwydd â'r modd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau (2011 – 2017). Canran o ymatebwyr a oedd yn cytuno bod y Cyngor yn... ..	7
CYSYLLTU Â'R CYNGOR.....	8
Graff 3: Canran o ymatebwyr a oedd yn fodlon gydag agweddau o gysylltu â'r Cyngor (2011 - 2017).....	Error! Bookmark not defined.
NEWSLINE	9
Gradd 4: Canran o ymatebwyr oedd yn credu bod <i>Newslne</i> yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol (2011 - 2017)	Error! Bookmark not defined.
BYW YM MWRDEISTREF SIROL CAERFFILI.....	10
Graff 5: Canran o ymatebwyr a oedd yn teimlo fod ansawdd bywyd yn eu cymdogaeth neu ganol eu tref leol wedi gwella, wedi aros yr un fath, neu wedi gwaethygu dros y 12 mis diwethaf	10
Graff 6: Canran o ymatebwyr a oedd yn fodlon gyda golwg y strydoedd yn eu cymdogaeth a chanol eu tref neu bentref lleol.....	Error! Bookmark not defined.
Graff 7: Problemau sy'n effeithio ar edyrchiad strydoedd yn y gymdogaeth a chanol y dref leol (Canran a ystyriai fod pob mater naill ai yn broblem fawr neu yn broblem fach)	12
TROSEDDU AC YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL	13
Graff 8: Ydych chi'n teimlo bod lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eich cymuned wedi gwella, wedi aros yr un peth, neu wedi gwaethygu dros y 2 flynedd ddiwethaf?	13
YSBWRIEL, AILGYLCHU A GWASANAETHAU GLANHAU.....	Error! Bookmark not defined.
Graff 9: Canran o ymatebwyr a oedd yn fodlon gyda'r gwasanaethau casglu sbwriel ac ailgylchu (2011 - 2017).....	15
GWASANAETHAU CLUDIANT	17

Graff 10: Canran o ymatebwyr a oedd yn fodlon ag agweddau gwahanol o'u gwasanaeth bws lleol (2011 - 2017)..... **Error! Bookmark not defined.**

Graff 11: Bodlonrwydd â safon cynnal a chadw'r ffyrdd: Canran o ymatebwyr a oedd yn fodlon (2011 - 2017)..... **Error! Bookmark not defined.**

HAMDDEN, DYSGU A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL**Error! Bookmark not defined.**

Graff 12: Bodlonrwydd â gweithgareddau hamdden, dysgu a diwylliannol a ddarperir gan y Cyngor: Canran o ymatebwyr a oedd yn fodlon (2011 - 2017) **Error! Bookmark not defined.**

MEYSYDD GWASANAETH ALLWEDDOL.....22

PRIF GANFYDDIADAU

- Ymatebodd cyfanswm o 2,774 o drigolion i'r arolwg
- O ystyried popeth, roedd 74% o ymatebwyr yn fodlon â'r gwasanaeth cyffredinol a ddarperir gan y Cyngor. Mae hyn yn cymharu â 78% yn 2015. Roedd y gyfran o bobl a oedd yn fodlon yn 16% o gymharu â 18% yn 2015.
- Y ffôn yw'r prif ddull a ddefnyddir i gysylltu â'r Cyngor, gyda 62% o drigolion a gysylltodd â'r Cyngor yn y 12 mis diwethaf yn nodi mai dyma oedd y prif ddull a ddefnyddiwyd.
- Roedd y lefelau o fodlonrwydd gydag agweddau gwahanol o gysylltu â'r Cyngor yn uchel. Yn benodol, roedd 88% yn fodlon â pha mor gymwynasgar oedd staff y brif ddesg.
- Ystyrir bod "*Newsline*" yn ffynhonnell newyddion a gwybodaeth ddefnyddiol gan 82% o ymatebwyr.
- Roedd 60% o ymatebwyr yn fodlon â chanol y trefi lleol ar gyfer gwasanaethau lleol ac amwynderau (cwestiwn newydd) ac roedd lefel y bodlonrwydd gyda chanol y trefi lleol ar gyfer siopa yn 57%.
- Credai 64% bod ansawdd bywyd yn eu cymdogaeth wedi gwella neu wedi aros yr un fath. Teimlai 63% bod ansawdd yng nghanol eu tref neu bentref wedi aros yr un fath neu wedi gwella.
- Roedd 54% yn fodlon gyda golwg y strydoedd yn eu cymdogaeth ac roedd 56% yn fodlon gyda golwg y strydoedd yng nghanol eu tref a phentref lleol.
- Y prif faterion sy'n effeithio ar olwg cymdogaethau a chanol y trefi oedd baw cŵn, sbwriel a gwastraff yn cronni, a chwyn a gordyfiant.
- Cytunai 51% o ymatebwyr bod yr Heddlu a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r materion troseddol sy'n bwysig yn yr ardal hon. Credai 63% bod lefelau trosedd, a chredai 54% bod ymddygiad gwrthgymdeithasol, wedi gwella neu wedi aros yr un fath dros y ddwy flynedd diwethaf.
- Er bod y lefelau yn uchel iawn, gostyngodd y ganran o fodlonrwydd gydag ailgylchu o 93% yn 2015 i 85% erbyn 2017. Gostyngodd lefelau bodlonrwydd â chasglu sbwriel o 89% yn 2015 i 83% yn 2017.
- Roedd 83% o ymatebwyr wedi defnyddio Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Tŷ yn y 12 mis diwethaf. Er mwyn lleihau'r gwasanaeth hon, byddai'n well gan yr ymatebwyr leihau'r oriau agor yn hytrach na lleihau'r nifer o safleoedd.
- Bu gostyngiad bychan yn y lefelau bodlonrwydd gyda'r gwasanaeth bws lleol yn gyffredinol o 83% yn 2015 i 81% yn 2017.
- Bodlonrwydd o 51% gydag arwynebau ffyrdd, 61% o fodlonrwydd gydag arwynebau palmantau, a 68% o fodlonrwydd gyda llwybrau cerdded a seiclo ar gyfer teithio llesol.
- Mae bodlonrwydd gyda llyfrgelloedd yn parhau i fod yn uchel gyda 96% o ddefnyddwyr yn dweud eu bod yn fodlon.
- Mae lefelau bodlonrwydd gyda pharciau gwledig wedi gwella gyda 93% yn nodi bodlonrwydd o gymharu â 2015, pan nododd 88% o ymatebwyr eu bod yn fodlon.

CEFNDIR

Ym mis Medi 2017, cynhaliwyd Arolwg Cartrefi manwl ar draws Bwrdeistref Sirol Caerffili er mwyn darganfod lefelau bodlonrwydd gyda gwasanaethau'r Cyngor, yn ogystal â darganfod barn ynghylch trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Holodd yr arolwg hefyd ynghylch barn trigolion am yr hyn maen nhw'n credu sy'n wasanaethau allweddol yng ngoleuni'r pwysau ariannol parhaus sy'n wynebu'r awdurdod lleol. Cynhelir arolygon tai bob yn ail flwyddyn ers 2001.

METHODOLEG

Cynhaliwyd yr arolwg hwn rhwng 1 Medi 2017 a 29 Medi 2017. Cynhwyswyd ymatebion hwyr a dderbyniwyd hyd at 13 Hydref yn y dadansoddiad, ond dim ond y rhai a gwblhaodd yr arolwg erbyn 29 Medi a gofrestrwyd i gael cyfle i ennill gwobr.

Fel yn 2015, dosbarthwyd yr arolwg mewn tair prif ffordd:

Arolwg *Newsline*

Mae pob cartref ym mwrdeistref sirol Caerffili yn derbyn papur newydd y cyngor, *Newsline*, yn chwarterol. Cynhwyswyd yr Arolwg Cartrefi llawn fel atodiad 8 tudalen, hollol ddwyieithog, yn rhifyn *Newsline* Medi 2017. Rhoddwyd cynnig i drigolion i ddychwelyd y ffurflen wedi ei chwblhau yn y post neu drwy unrhyw swyddfa'r cyngor, llyfrgell, canolfan hamdden, swyddog tai neu ganolfan cwsmeriaid. Roedd darllenwyr hefyd yn ymwybodol bod fersiwn ar-lein o'r arolwg ar gael petai well ganddynt wneud hynny.

Arolwg y We

Arddangoswyd yr arolwg ar Wefan y Cyngor yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad. Roedd fersiwn papur hefyd ar gael ar y Wefan ar ffurf *pdf* y gellid ei argraffu petai angen.

Hyrwyddwyd yr arolwg hefyd drwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y cyngor. Derbyniodd tanysgrifwyr i wasanaeth "*NewsONline*" y Cyngor hysbysiad o'r arolwg yn cynnwys dolenn i'r arolwg ar-lein, ac ymddengys i hyn gael traweffaith sylweddol ar lefel yr ymatebion.

Dosbarthiad wedi ei dargedu

Er mwyn annog croestoriad ehangach i gwblhau'r arolwg, hyrwyddwyd yr arolwg drwy Gynghorau Tref a Chymuned, y fforwm 50+, Menter Iaith, Rhwydwaith Rhieni Caerffili, staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sydd hefyd yn drigolion, staff mewn sefydliadau agos, partneriaid sy'n byw o fewn y fwrdeistref sirol a Phanel Safbwynt Caerffili. Bu'r gwasanaethau ieuenctid hefyd yn annog pobl ifanc i gwblhau'r arolwg.

Cyfanswm nifer yr ymatebion i'r arolwg oedd **2,774**. Derbyniwyd 2,311 o'r rhain ar-lein (17 yn Gymraeg) a dychwelwyd 463 ar ffurf papur ac fe'u mewnbynnwyd â llaw i'r system. Daeth y rhan fwyaf o'r rhain drwy *Newsline*.

Mae cyfanswm nifer yr arolygon a dderbyniwyd wedi mwy na dyblu ers 2015, pan oedd 1,258 o ymatebion. Cynyddodd y gyfran o arolygon a gwblhawyd ar-lein yn sylweddol o gymharu â'r blynyddoedd diwethaf, gyda'r ymatebion ar-lein yn cyfrif am 83% o'r holl arolygon a gwblhawyd.

Dadansoddwyd ymatebion yr arolwg gyda'i gilydd, ac mae'r adroddiad sy'n dilyn yn ymwneud â'r **holl** ymatebion a dderbyniwyd, waeth sut y derbyniwyd hwy.

DADANSODDI

Gwnaed nifer o newidiadau i'r arolwg yn 2017 er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau'r Cyngor a'r ardaloedd y canolbwyntir arnynt. Er mwyn osgoi dyblygu gwaith, mewnosodwyd yr arolwg Gwasanaethau Cyhoeddus a gwblheir bob yn ail flwyddyn i mewn i'r Arolwg Cartrefi cyfredol. Roedd yr arolwg hefyd yn casglu barn am y meysydd y mae trigolion yn teimlo sy'n bwysig iddynt hwy ac i'w cymuned. Defnyddiwyd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn y broses cynllunio ariannol tymor canolig ar ffurf adroddiad i Arweinydd y Cyngor i'w ystyried.

Wrth ddadansoddi'r data, pan oedd modd cymharu ymatebion i'r cwestiynau yn arolwg 2017 gyda'r ymatebion o flynyddoedd blaenorol, nodwyd hyn.

Drwy gydol yr adroddiad hwn, cyflwynir y canlyniadau fel canran (%) o ymatebion ar sail cyfanswm y nifer o ymatebion i'r cwestiynau unigol (sy'n amrywio gan na atebodd yr ymatebwyr bob cwestiwn.)

Er hwylustod adrodd, efallai cyfunir categorïau "bodlon iawn" a "gweddol fodlon" a'u cyflwyno fel "**bodlon**" gyda "eithaf anfodlon" ac "anfodlon iawn" yn cael eu cyflwyno fel "**anfodlon**". Yn yr un modd, cyfunir "cytuno'n gryf" a "tueddu i gytuno" â'i gilydd a'u cyflwyno fel "**cytuno**" ac "anghytuno'n gryf" a "tueddu i anghytuno" yn cael eu cyflwyno fel "**anghytuno**."

Mae crynodeb llawn o'r canrannau o ymatebion i bob cwestiwn yn **Atodiad 1**.

PROFFIL YMATEBWYR

O'r sawl a ddarparodd ymateb, roedd 60% yn fenywod. Nododd Cyfrifiad 2011 bod menywod yn cyfri am 49% o boblogaeth dros 18 oed y fwrdeistref sirol gyfan. Roedd yr ymatebwyr yn tueddu i fod o grwpiau oed hŷn, gyda 40% o'r ymatebwyr rhwng 31 a 50 oed, a 40% pellach rhwng 51 a 70 oed. Roedd y rhai rhwng 18 a 30 yn cyfri am 7% o'r ymatebwyr, gyda 13% dros 71 oed.

Ar y cyfan, nododd 45% o ymatebwyr eu bod yn gweithio llawn amser, ac roedd 28% wedi ymddeol, sy'n adlewyrchu'r proffil oed.

Yn gyffredinol, disgrifiodd 98.3% o'r ymatebwyr eu hunain yn Wyn, sy'n cyd-fynd â phoblogaeth y trigolion fel y nodwyd yng Nghyfrifiad 2011. Nododd 98% o ymatebwyr mai Saesneg yw eu prif iaith.


O'r sawl a atebodd y cwestiwn, nododd 13% o ymatebwyr fod ganddynt anabledd ac roedd gan 23% salwch neu broblem iechyd hir dymor. O'r rhai a gwblhaodd y cwestiwn, credai 85% bod eu hiechyd corfforol yn dda iawn/da a chredai 89% bod eu hiechyd meddwl ac emosiynol yn dda/da iawn.

Roedd canran uchel o ymatebwyr yr arolwg (84%) yn berchen ar eu tai (e.e. wedi nodi eu bod yn berchen ar eu tŷ yn llwyr neu gyda morgais) o gymharu â'r ganran gyfatebol a nodwyd yng Nghyfrifiad 2011, lle 'roedd 70% yn berchen ar eu tai.

EICH CYNGOR

O ystyried popeth, roedd 74% o ymatebwyr yn fodlon yn gyffredinol gyda'r gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Dengys **Graff 1** y ganran o ymatebwyr a oedd yn fodlon neu'n anfodlon gyda'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn gyffredinol ers 2011.

Graff 1: Canran o ymatebwyr sy'n fodlon neu'n anfodlon â'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn gyffredinol (2011 – 2017)



- Bodlon
- Anfodlon

Gofynnwyd i'r rhai a nododd eu bod yn anfodlon i nodi'r rhesymau am eu hateb, a hefyd i nodi beth y gallai'r Cyngor ei wneud er mwyn gwella eu bodlonrwydd â gwasanaethau'r cyngor yn gyffredinol.

Mae crynodeb o sylwadau yn ymwneud â'r rhesymau dros anfodlonrwydd a barn am beth allai'r Cyngor ei wneud er mwyn gwella bodlonrwydd yn Atodiad 2.

Roedd nifer o sylwadau yn ymwneud â materion penodol yn gysylltiedig yn uniongyrchol ag unigolion. Fodd bynnag, mae'r prif faterion a nodwyd yn aml yn y sylwadau yn cynnwys:

- Ffyrdd – cynnal a chadw, tyllau yn y ffyrdd
- Sbwriel, gwastraff yn cronni a baw cŵn
- Diffyg cynnal a chadw yn gyffredinol, cloddiau, coed a chwyn yn gordyfu
- Gwastraff ac ailgylchu
- Anwybyddu barn y trigolion
- Problemau traffig – tagfeydd a goryrru
- Parcio – yn cynnwys parcio ar y palmant, costau parcio

- Problem barhaus gyda chodiad cyflog y Prif Weithredwr

Gofynnwyd i'r trigolion a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno gyda nifer o ddatganiadau yn ymwneud â'r modd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau.


Gofynnwyd dau gwestiwn newydd yn yr adran hon yn arolwg 2017. Gofynnodd y cwestiwn cyntaf i'r trigolion a ydynt yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol. 35% yn unig o drigolion a oedd yn cytuno eu bod yn teimlo y gallent ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n ymwneud â'u hardal leol megis ceisiadau cynllunio, gosodiadau ffyrdd neu faterion ehangach a fydd yn effeithio ar ble maent yn byw.

Gofynnodd yr ail gwestiwn i'r trigolion i nodi a oeddent yn teimlo eu bod yn deall sut y gwneir penderfyniadau mewn Llywodraeth Leol. Yn yr achos hwn, nododd 58% o ymatebwyr eu bod yn deall sut y gwneir penderfyniadau mewn Llywodraeth Leol.

Mae data cymharol ar gael ar gyfer cwestiynau eraill yr adran hon yn **Graff 2**.

Gwelir bod bron dwy ran o dair o ymatebwyr yn cytuno bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau yn effeithiol (62%), gyda dros hanner yn teimlo bod y Cyngor yn rhoi gwybod i drigolion ynghylch yr hyn y mae'n ei wneud (53%). Fodd bynnag, mae'r gyfran o drigolion a gytunodd â'r datganiadau hyn wedi gostwng ers 2015.

Graff 2: Bodlonrwydd â'r modd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau (2011 – 2017). Y ganran o ymatebwyr oedd yn cytuno bod y Cyngor yn...



- Rhoi gwybod i drigolion am beth mae'n ei wneud
- Gwrandao ar farn trigolion
- Ymgynghori â thrigolion cyn gwneud penderfyniadau mawr
- Darparu gwasanaethau yn effeithiol
- Darparu gwerth am arian i drethdalwyr


CYSYLLTU Â'R CYNGOR

Yn arolwg 2017, gofynnwyd i drigolion am eu profiadau o gysylltu â'u Cynghorydd lleol yn ogystal â'u profiad o gysylltu â staff yn y Cyngor (ar wahân i dalu biliau cyffredinol) yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd un rhan o dair o'r rhai a ymatebodd (34%) wedi cysylltu â'u Cynghorydd lleol yn y 12 mis diwethaf. O'r rhai hynny, nododd 82% ei fod yn "hawdd" cysylltu â'u Cynghorydd lleol. Y prif ddulliau a ddefnyddiwyd i gysylltu â Chynghorydd lleol oedd dros y ffôn a llythyr (30% yr un) ac wyneb yn wyneb (25%).

O gymharu, roedd 75% o ymatebwyr wedi cysylltu â'r Cyngor yn ystod y 12 mis diwethaf. Teimlai 85% ei fod yn hawdd cysylltu â'r Cyngor. Y prif ddull a ddefnyddiwyd i gysylltu â'r Cyngor oedd dros y ffôn, gyda 62% wedi cysylltu â'r Cyngor yn y modd hwn. Roedd 19% wedi cysylltu â'r Cyngor dros e-bost.

Gofynnwyd hefyd i'r rhai a oedd wedi cysylltu â'r Cyngor yn y 12 mis diwethaf pa mor fodlon neu anfodlon oeddent ag agweddau gwahanol o gysylltu â'r Cyngor. Yn gyffredinol, roedd lefelau bodlonrwydd yn uchel. Fel y gwelir yng **Ngraff 3**, roedd lefelau uchel o fodlonrwydd gyda staff y brif ddesg (noder: ail-eiriwyd y cwestiwn hwn o staff "derbynfa" i'r "brif ddesg" yn arolwg 2017) a staff eraill y cyngor.

Graff 3: Canran o ymatebwyr sy'n fodlon gydag agweddau gwahanol o gysylltu â'r Cyngor (2011 – 2017)




- Y modd y deliwyd â'ch ymholiad yn gyffredinol
- Pa mor hawdd oedd cysylltu â'r person yr oeddech ei angen
- Pa mor barod oedd staff y brif ddesg i helpu
- Pa mor barod oedd staff eraill y Cyngor i helpu

Gofynnwyd tri chwestiwn ychwanegol yn arolwg 2017 yn ymwneud â pha mor hawdd yw cysylltu â'r Cyngor. Roedd y rhain yn ymwneud â'r Wefan, cyfryngau cymdeithasol a chysylltu dros e-bost. Roedd 80% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn fodlon â pha mor hawdd yw defnyddio Gwefan y Cyngor. Roedd dros dwy ran o dair yn fodlon ag ymatebolrwydd cyfryngau cymdeithasol (68%) ac ymatebolrwydd dros e-bost (67%).

NEWSLINE

Cytunodd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr bod “*Newsline*” yn ffynhonnell newyddion a gwybodaeth ddefnyddiol (82%), er bod y lefel o fodlonrwydd wedi gostwng o 89% yn 2011. Mae’n well gan 56% o ymatebwyr dderbyn “*Newsline*” ar ffurf papur newydd drwy’r drws, gan ddweud y buasai’n well ganddynt dderbyn y cyhoeddiad yn y ffordd hon. Mae’n well gan 35% o ymatebwyr dderbyn copi electronig dros e-bost, a chopïau papur sydd gael o bwyntiau casglu drwy’r fwrdeistref yw’r opsiwn lleiaf poblogaidd (9%).

Graff 4: Canran o ymatebwyr a gredai bod *Newsline* yn ffynhonnell newyddion a gwybodaeth ddefnyddiol (2011 - 2017)



- Mae *Newsline* yn ffynhonnell newyddion a gwybodaeth ddefnyddiol

BYW YM MWRDEISTREF SIROL CAERFFILI


Gofynnwyd i'r trigolion am eu barn ynghylch eu cymdogaeth a chanol eu tref leol ar gyfer siopa, gwasanaethau lleol a mwynderau.

Nododd dros hanner (57%) eu bod yn fodlon â chanol eu tref leol ar gyfer siopa, ac roedd cyfran ychydig yn uwch (60%) yn fodlon â chanol eu tref ar gyfer gwasanaethau lleol a mwynderau.

Nid oes data cymharol ar gyfer y cwestiwn ar wasanaethau a mwynderau gan fod hwn yn gwestiwn newydd. Fodd bynnag, nid yw bodlonrwydd gyda chanol trefi lleol ar gyfer siopa wedi newid yn sylweddol ers 2011.

Fel y dengys **Graff 5**, teimlai 64% o ymatebwyr bod ansawdd bywyd yn eu cymdogaethau wedi gwella neu wedi aros yr un fath, a chredai 63% bod ansawdd bywyd yng nghanol eu tref neu bentref lleol wedi gwella neu wedi aros yr un fath dros y deuddeg mis diwethaf. Dengys y ffigyrau hyn ill dau ostyngiad ers arolwg 2015 (76% ar gyfer cymdogaethau a 70% ar gyfer canol trefi lleol).

Graff 5: Canran o ymatebwyr a deimlai bod ansawdd bywyd yn eu cymdogaeth neu ganol tref lleol wedi gwella, wedi aros yr un fath neu wedi gwaethygu dros y 12 mis diwethaf




- Wedi gwella
- Wedi aros yr un peth
- Wedi gwaethygu
- Cymdogaeth
- Canol y Pentref neu'r Dref Leol

Gofynnwyd i drigolion am eu bodlonrwydd ag edrychiad y strydoedd yn eu cymdogaeth a chanol eu pentref neu dref leol. (Yn y blynyddoedd diwethaf, ni wahanwyd cwestiynau yn ymwneud ag edrychiad strydoedd mewn cymdogaethau a chanol trefi neu bentrefi lleol.)


Dengys **Graff 6** bod dros hanner (54%) yn fodlon ag edrychiad eu strydoedd yn eu cymdogaeth leol gyda 56% yn fodlon ag edrychiad y strydoedd yng nghanol eu tref neu bentref lleol.

Graff 6: Canran o ymatebwyr a oedd yn fodlon ag edrychiad y strydoedd yn eu cymdogaethau a chanol eu tref neu bentref lleol



Y prif faterion sy'n effeithio ar edrychiad cymdogaethau a chanol trefi a phentrefi oedd baw cŵn a sbwriel a gwastraff yn cronni. Er hyn, ystyrid bod baw cŵn yn fwy o broblem mewn cymdogaethau lleol nag mewn canol trefi. Ystyriwyd hefyd bod chwyn a gordyfiant yn fwy o broblem mewn cymdogaethau lleol, tra bod gosod posteri yn anghyfreithlon yn fwy o broblem yng nghanol trefi. Dengys **Graff 7** y materion a ystyriwyd yn broblem fach neu'n broblem fawr.

Graff 7: Problemau sy'n effeithio ar edrychiad strydoedd mewn cymdogaethau a chanol trefi lleol (Canran sy'n ystyried fod pob mater naill ai yn broblem fawr neu'n broblem fach)




- Cymdogaeth
- Canol tref/pentref
- Baw cŵn
- Sbwriel a gwastraff yn cronni
- Chwyn a gordyfiant
- Ansawdd palmaetydd, llwybrau a thramwyfeydd
- Gosod posterï yn anghyfreithlon a graffiti
- Ansawdd celfi stryd
- Ansawdd ardaloedd gwyrdd, tirweddau ac arddangosfeydd blodau

TROSEDDU AC YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

Yn arolwg 2017, cytunai 51% o ymatebwyr bod yr Heddlu a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion trosedd sy'n bwysig yn yr ardal hon. Mae hyn yn sylweddol is na'r arolwg yn 2015 lle cytunai 63% a'r gosodiad.

Gofynnwyd i drigolion a ydynt yn credu bod lefelau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu cymuned wedi gwella, wedi aros yr un fath neu wedi gwaethygu dros y 2 flynedd diwethaf. Dengys **Graff 8** y credai 63% bod lefelau trosedd, a 54% bod ymddygiad gwrthgymdeithasol, wedi gwella neu wedi aros yr un fath dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae'r ffigyrau hyn yn is o'u cymharu ag ymatebion arolwg 2015 pan gredai 71% bod lefelau trosedd, a 65% bod ymddygiad gwrthgymdeithasol, wedi gwella neu wedi aros yr un fath dros y ddwy flynedd diwethaf.

Graff 8: Ydych chi'n credu bod lefelau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eich cymuned wedi gwella, wedi aros yr un fath, neu wedi gwaethygu dros y 2 flynedd diwethaf?



- Wedi gwella
- Wedi aros yr un fath
- Wedi gwaethygu
- Trosedd
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol


YSBWRIEL, AILGYLCHU A GWASANAETHAU GLANHAU

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ynghylch eu bodlonrwydd â'r gwasanaethau ailgylchu ac ysbwriel. Mae crynodeb o'r canlyniadau yng **Ngraff 9**. Dengys y graff bod lefelau uchel iawn o fodlonrwydd gyda phob agwedd o wasanaethau ailgylchu a sbwriel a ddarperir gan y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r rhain wedi gostwng ym mhob ardal ers 2015. Gofynnwyd cwestiwn ychwanegol yn yr adran hon yn arolwg 2017 yn ymwneud â glendid y strydoedd a'r amgylchedd. Roedd 64% yn fodlon â glendid y strydoedd a'r amgylchedd yn yr arolwg hwn.

Er mwyn hyrwyddo ailgylchu gan hefyd ystyried dewisiadau mwy hir dymor, gofynnwyd i'r trigolion i nodi sut yr hoffent weld Cyngor Caerffili yn symud ymlaen. Yn arwyddocaol, byddai'n well gan 78% weld dim newid i'r system gyfredol, gyda 8% yn unig yn nodi y byddai'n well ganddynt fin ysbwriel llai, a byddai'n well gan 15% petai'r cyngor yn cyflwyno gofynion i drigolion ynghylch gwahanu a threfnu deunyddiau y gellid eu hailgylchu cyn eu casglu.

Ceir crynodeb o sylwadau yn ymwneud â'r prif resymau dros yr ymatebion a roddwyd yn Atodiad 3.

Graff 9: Canran o ymatebwyr a oedd yn fodlon â'r gwasanaethau ailgylchu a chasglu ysbwriel (2011 – 2017)



- Ailgylchu
- Casglu ysbwriel
- Casglu gwastraff gardd / gwastraff bwyd
- Safleoedd ailgylchu amwynderau dinesig / gwastraff tŷ

Mae'r Cyngor yn darparu chwe chanolfan gwastraff ac ailgylchu lle y gall trigolion fynd â gwastraff a deunyddiau y gellid eu hailgylchu drwy gydol y flwyddyn. Mae rhai awdurdodau cyfagos yn darparu un neu ddau safle o'r fath yn unig. Roedd 83% o'r ymatebwyr wedi ymweld â chanolfan gwastraff tŷ ac ailgylchu yn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd dros hanner

ohonynt wedi ymweld â safle chwe gwaith neu fwy. Trehir a Phenmaen oedd y safleoedd a ddefnyddiwyd amlaf gan yr ymatebwyr.


Wrth edrych ar ffyrdd mwy cost effeithiol o ddarparu'r ganolfan gwastraff tŷ ac ailgylchu, petai cyllid cyhoeddus yn atal y Cyngor rhag cynnal ei darpariaeth bresennol, y dull a ffafrir gan 48% o ymatebwyr oedd lleihau oriau agor y safleoedd. 11% o ymatebwyr yn unig a fyddai'n ffafrio lleihau'r nifer o safleoedd.

Roedd sylwadau ychwanegol yn ymwneud â hygyrchedd i'r rhai heb gludiant, sicrhau amser agor gyda'r hwyr ac ar benwythnosau, a phryderon ynghylch tipio anghyfreithlon pe na bai cyfleusterau ar gael. Mae crynodeb o opsiynau eraill a awgrymwyd yn **Atodiad 3**.

GWASANAETHAU CLUDIANT

Gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent yn fodlon gydag amryw o agweddau o'u gwasanaeth bws lleol, os ydynt yn eu defnyddio neu beidio. Dengys **Graff 10** bod lefelau uchel o fodlonrwydd gyda holl agweddau'r gwasanaeth bws lleol yn 2017, ond gyda gostyngiad bychan o fodlonrwydd gyda'r rhan fwyaf o agweddau ar wahân i "ddarpariaeth safleoedd bws."

Graff 10: Canran o ymatebwyr a oedd yn fodlon ag agweddau gwahanol o'u gwasanaeth bws lleol (2011 - 2017)



- Darparu gwybodaeth am gludiant cyhoeddus
- Amllder gwasanaeth bws
- Darpariaeth arosfannau bws
- Cyflwr yr arosfannau/llochesi bws
- Prydlondeb bysiau
- Y gwasanaeth bws lleol yn gyffredinol


Gofynnwyd nifer o gwestiynau yn ymwneud â safonau cynnal rhai elfennau o'r rhwydwaith ffyrdd, a dengys y ganran o ymatebwyr a oedd yn fodlon yn **Graff 11**.

Fel gyda'r arolygon diwethaf, roedd y lefelau bodlonrwydd uchaf yn ymwneud â chynnal a chadw golau stryd (81%), a ddilynwyd gan arwyddion a marciau ffyrdd (76%). Roedd yr ymatebwyr lleiaf bodlon ag arwynebau ffyrdd. Fodd bynnag, mae'r maes hwn wedi dangos cynnydd sylweddol ers 2011 gyda'r lefelau bodlonrwydd wedi cynyddu o 28% (2011) i 51% yn 2017.

Gofynnwyd cwestiwn ychwanegol yn arolwg 2017 yn ymwneud â bodlonrwydd gyda llwybrau cerdded a beicio ar gyfer teithio llesol. Nododd 68% o ymatebwyr eu bod yn fodlon â'r agwedd hon o'r rhwydwaith ffyrdd yn y gymdogaeth.

Mae lfeleau bodlonrwydd gyda phob agwedd o rwydwaith ffyrdd yn y gymdogaeth wedi gostwng ers arolwg 2015, yn bennaf gyda rheoli priffyrdd (tagfeydd).

Graff 11: Bodlonrwydd â safon cynnal a chadw rhwydwaith ffyrdd yn y gymdogaeth: Canran o ymatebwyr a oedd yn fodlon (2011 – 2017)



- Arwynebau ffyrdd
- Arwynebau palmant
- Draeniau a Chwteri
- Arwyddion a marciau ffordd
- Golau stryd
- Cynnal a chadw dros y gaeaf
- Rheoli priffyrdd


DYSGU, HAMDDEN A GWEITHGAREDDAU DIWYLLIANNOL

Gofynnwyd i drigolion i nodi pa gyfleusterau hamdden a diwylliannol y maent wedi eu defnyddio, gyda'r ymatebion a oedd ar gael yn amrywio o 'bron bob diwrnod' i 'erioed wedi ei ddefnyddio'. Yna ceisiodd yr arolwg ganfod lefelau bodlonrwydd â phob un o'r cyfleusterau ar gyfer y gweithgareddau hamdden a diwylliannol a gynhwysid. Pan nododd ymatebwyr eu bod wedi defnyddio cyfleuster penodol ryw dro, nodwyd eu lefelau bodlonrwydd yn y dadansoddiad dilynol.

Defnyddiwyd Canolfannau Hamdden a Chwaraeon, Llyfrgelloedd, Parciau a mannau chwarae a Pharciau Gwledig yn eang gan ymatebwyr, ond nid oedd 65% o ymatebwyr erioed wedi defnyddio'r Tŷ Weindio, nid oedd 39% erioed wedi defnyddio Llancaeath Fawr ac nid oedd 38% erioed wedi defnyddio Sefydliad y Glowyr Coed Duon.

Fel y gwelir yng **Ngraff 12**, mae lefelau bodlonrwydd â holl agweddau cyfleusterau hamdden a diwylliannol yn uchel ymhlith defnyddwyr y gwasanaethau. Mae bodlonrwydd â Pharciau Gwledig wedi cynyddu ers 2015, yn yr un modd ag y mae bodlonrwydd â Llancaeath Fawr, Sefydliad y Glowyr Coed Duon a'r Tŷ Weindio wedi cynyddu.

Graff 12: Bodlonrwydd â gweithgareddau hamdden, dysgu a diwylliannol a ddarperir gan y Cyngor: Canran o ymatebwyr a oedd yn fodlon (2011 - 2017)



- Llyfrgelloedd
- Llancaeach Fawr

- Tŷ Weindio
- Sefydliad y Glowyr Coed Duon
- Canolfannau Hamdden a Chwaraeon
- Parciau a Mannau Chwarae
- Meysydd chwarae a chwaraeon
- Parciau Gwledig

MEYSYDD GWASANAETH ALLWEDDOL

Fel pob awdurdod lleol arall yng Nghymru, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili dan bwysau ariannol sylweddol o ganlyniad i leihad yn y cyllid oddi wrth y Llywodraeth Ganolog. Mae'r Cyngor eisoes wedi gwneud arbedion sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, a bydd angen iddo gyrraedd targedau arbed arian pellach dros y blynyddoedd nesaf. Unwaith i'r gwasanaethau hyn gael eu torri, prin iawn yw'r cyfle iddynt gael eu hadfer yn y dyfodol agos. Gofynwyd i drigolion am eu barn am ba wasanaethau sy'n bwysig iddyn nhw ac i'w cymuned. Rhannwyd crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn gydag Arweinydd y Cyngor fis Tachwedd 2017 er mwyn darparu gwybodaeth a fydd yn helpu'r broses cynllunio cyllideb (**Atodiad 4**).